# Adolygiad Gwella Ansawdd rhannol o Ganolfan Ddysgu Birmingham Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

## Yr Adroddiad Technegol

### Mehefin 2019

### Cynnwys


**Dull yr Adolygiad Gwella Ansawdd ........ 1**
**Yr adolygiad yma ........ 1**
**Yr adroddiad yma ........ 1**
**Y feirniadaeth drosfwaol am Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant mewn perthynas â'i Chanolfan Ddysgu Birmingham ........ 2**
1 Sail resymegol a chyd-destun strategol y ddarpariaeth addysg uwch yng Nghanolfan Ddysgu Birmingham ........ 2
2 Bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol ........ 6
3 Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr ........ 8
4 Cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu ........ 11
5 Sicrhau ansawdd a safonau ........ 12


*Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.*

# Dull yr Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr Adolygiad Gwella Ansawdd ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.[1] Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).[2]

# Yr adolygiad yma

Dyma Adroddiad Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd rhannol a weithredwyd gan QAA yng Nghanolfan Ddysgu Birmingham Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS). Cynhaliwyd yr adolygiad ar 11 a 12 Mehefin 2019. Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Yr Athro John Baldock
- Sarah Riches
- Sala Khulumula (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Cyn yr ymweliad adolygu, cyflwynodd y Brifysgol adroddiad newidiadau a chyfres o wybodaeth ymlaen llaw, sy'n cynnwys ystod o ddeunyddiau am drefniadau'r darparwr i reoli safonau academaidd ac ansawdd.

# Yr adroddiad yma

Yn yr adroddiad hwn, mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (2015) (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Gallwch weld y beirniadaethau ar dudalen 2, ac mae canfyddiadau manwl yr adolygiad yn dilyn y rheiny mewn paragraffau wedi'u rhifo.

Mae Adroddiad Technegol yn nodi barn tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd o dan bob un o benawdau'r adroddiad. Mae Adroddiad Canlyniadau byrrach yn nodi prif ganfyddiadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd i gynulleidfa ehangach. Mae'r Adroddiad Canlyniadau ar gyfer yr adolygiad hwn ar gael ar wefan QAA.[3]

Mae Adroddiadau Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd wedi'u bwriadu'n bennaf i'r darparwyr dan sylw, ac i ddarparu sail gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws ystod o ddarparwyr.

[1] Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Gwella Ansawdd: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.
[2] Rhagor o wybodaeth am QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.
[3] Yr Adroddiad Canlyniadau: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Prifysgol-Cymru-Y-Drindod-Dewi-Sant

# Y feirniadaeth drosfwaol am Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant mewn perthynas â'i Chanolfan Ddysgu Birmingham

Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae'r tîm adolygu'n barnu hyn:

- Mewn perthynas â'i Chanolfan Ddysgu Birmingham, mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.
- Mewn perthynas â'i Chanolfan Ddysgu Birmingham, mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

## 1 Sail resymegol a chyd-destun strategol y ddarpariaeth addysg uwch yng Nghanolfan Ddysgu Birmingham

### 1.1 Y ddarpariaeth yng Nghanolfan Ddysgu Birmingham a chanolfannau eraill y Brifysgol

1 Ar adeg yr adolygiad gan QAA (Mehefin 2019), roedd gan Ganolfan Ddysgu Birmingham (y cyfeirir ati fel 'y Ganolfan' o hyn ymlaen) 797 o fyfyrwyr llawn amser cofrestredig oedd yn astudio ar raglenni sy'n arwain at ddyfarniadau lefelau 4 i 6 yn y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch* (FHEQ) i Gyrff Dyfarnu Graddau'r DU. Mae'r Ganolfan wedi ehangu ei darpariaeth yn gyflym ers derbyn ei charfan gyntaf o fyfyrwyr ym mis Mawrth 2018.

2 Dyma'r rhaglenni oedd yn cael eu darparu ganddi ym mis Mehefin 2019:

- Tystysgrif Addysg Uwch mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle: 620 o fyfyrwyr
- BA mewn Sgiliau Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer y Gweithle: 64 o fyfyrwyr
- BA mewn Rheolaeth Gwestai Rhyngwladol: 29 o fyfyrwyr
- Tystysgrif Addysg Uwch mewn Rheolaeth Gwestai Rhyngwladol: 84 o fyfyrwyr.

3 Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio yn y Ganolfan yn cynrychioli cyfran fechan ond arwyddocaol a chynyddol o boblogaeth fyfyrwyr gyfan PCYDDS. Ym mis Mawrth 2019, roedd gan y Brifysgol gyfanswm o 10,315 o fyfyrwyr cofrestredig, yr oedd 6.7% ohonynt yn cael eu haddysgu yn y Ganolfan ar y pryd. Derbynnir myfyrwyr ar holl raglenni'r Ganolfan ar ddechrau pob un o'r tri thymor o 17 wythnos sy'n dechrau bob mis Ionawr, Mai a Medi, a gallent raddio ar ddiwedd y tymhorau hyn. Am y rheswm hwnnw, bydd cyfanswm y myfyrwyr a addysgir dros flwyddyn academaidd o 12 mis yn fwy na nifer y myfyrwyr cofrestredig ar unrhyw bwynt penodol mewn amser. Cafwyd gwahaniaeth o oddeutu 300 o fyfyrwyr yn ystod blwyddyn yr adolygiad.

4 I ymgeisio am le ar raglenni'r campws yn Llundain a rhaglenni'r Ganolfan rhaid gwneud cais uniongyrchol i'r Brifysgol. Cefnogir y broses hon gan asiantau lleol sydd â gwybodaeth arbenigol am y cymunedau ynghanol dinas y tynnir y myfyrwyr ohonynt. Ni wneir unrhyw recriwtio drwy system UCAS. Ni ofynnir i ymgeiswyr y rhaglenni tystysgrif feddu ar unrhyw gymwysterau neu bwyntiau UCAS, ond rhaid iddynt basio asesiad ysgrifenedig wedi'i amseru a chyfweliad er mwyn cael lle ar y rhaglen. Bydd myfyrwyr sy'n cael eu derbyn ar y rhaglenni BA naill ai wedi graddio o'r dyfarniadau lefel tystysgrif neu bydd ganddynt Lefelau A, Bagloriaeth neu gymwysterau cyfatebol. Dim ond myfyrwyr o'r DU/UE y mae'r Ganolfan yn eu recriwtio, ac nid yw trwydded Noddwr Haen 4 y Brifysgol yn cynnwys y Ganolfan. Yn 2017, gwnaeth

y Brifysgol gais i CCAUC, a derbyniodd ganiatâd ganddo, i amrywio ei Chynllun Ffioedd a Mynediad 2017-18, er mwyn caniatáu recriwtiaid i'r Ganolfan.

5 Mae cynlluniau ar y gweill i ehangu ymhellach gyda recriwtio i ddwy raglen addysg uwch lawn amser ychwanegol yn y flwyddyn academaidd 2019-20: y rhaglen Tystysgrif Addysg Uwch mewn Sgiliau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r rhaglen BSc mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r cynlluniau ehangu'n amodol ar drafodaethau cyfredol i sicrhau lle addas mewn adeilad ychwanegol yn Birmingham.

6 Gwneir y gwaith addysgu gan ddau ddarlithydd llawn amser a 14 o ddarlithwyr sy'n cael eu talu yn ôl yr awr, a chefnogir y rhain gan 11 aelod o staff y gwasanaethau academaidd sydd wedi'u seilio yn Birmingham, a gan y Rheolwr Academaidd a Chanolfan sy'n gyfrifol am reoli ei gwaith o ddydd i ddydd. Rheolir y Ganolfan drwy gampws PCYDDS yn Llundain, a sefydlwyd yn 2012 ac sy'n darparu'r holl raglenni sydd ar gael neu'r rhai arfaethedig yn y Ganolfan. Mae gan y campws yn Llundain statws cyfadran i bwrpasau cynllunio ac i bwrpasau eraill. Mae'r Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Mentrau Rhyngwladol) yn gyfrifol am y Ganolfan ac am y campws yn Llundain, ac mae'n adrodd i'r Pro Is-Ganghellor (Rhyngwladol a Chyfoethogi) a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd).

7 Er bod y ddarpariaeth yn y Ganolfan yn weddol newydd, mae'r holl raglenni a ddarperir yno wedi'u sefydlu'n dda yn barod, oherwydd cawsent eu datblygu a'u haddysgu ar gampysau PCYDDS yng Nghaerdydd, Abertawe a Llundain, yn ogystal â safleoedd allgymorth yng Nghymru. Mae'r Ganolfan yn gweithredu yn unol â'r polisïau, y gweithdrefnau a'r rheoliadau academaidd sy'n berthnasol i bob un o gampysau a chanolfannau dysgu'r Brifysgol, ac mae holl adnoddau gweinyddu a dysgu'r Brifysgol ar gael iddi. Mae'r staff yn gweithio ar sail disgrifiadau swydd a chontractau'r Brifysgol gyfan, ac maent yn atebol i'r un disgwyliadau ac yn derbyn yr un gefnogaeth mewn perthynas ag ymsefydlu, arfarnu a chyfranogi mewn datblygiad staff.

## 1.2 Y sail resymegol a'r cyd-destun strategol

8 Un o ffocysau arbennig yr adolygiad rhannol hwn oedd deall i ba raddau yr oedd y ddarpariaeth gynyddol yn Birmingham yn gyson â phroffil a bwriadau strategol y Brifysgol, a'r ffordd yr oedd y risgiau ariannol ac academaidd sy'n gysylltiedig â gweithredu rhaglenni bellter o'r prif gampysau'n cael eu rheoli.

9 Roedd yr Adroddiad Newidiadau, a gyflwynwyd ar gyfer yr adolygiad, yn rhoi'r penderfyniad i ddatblygu'r Ganolfan yng nghyd-destun Cenhadaeth PCYDDS a'i Chynllun Strategol 2017-2022, yn arbennig y flaenoriaeth a roddir i ddileu rhwystrau sy'n cyfyngu ar allu pobl benodol neu gymunedau penodol ym mhoblogaeth y DU i gyfranogi mewn addysg uwch. Roedd y sail tystiolaeth a ddarparwyd i'r tîm adolygu'n dogfennu sut a pham y gwnaethpwyd penderfyniadau allweddol i ddatblygu'r Ganolfan yn ardal Sparkhill Birmingham a'r ffordd yr oedd y datblygiad a'r canlyniadau wedi cael eu monitro a'u hadrodd. Gallai'r tîm adolygu archwilio'r materion hyn ymhellach mewn cyfarfodydd gydag uwch reolwyr, staff o'r gwasanaethau academaidd a phroffesiynol, a thrawstoriad o fyfyrwyr cyfredol y Ganolfan.

10 Mae PCYDDS yn ei disgrifio ei hun fel "prifysgol sydd â'r nod o ehangu cyfranogiad", ac un o'r gwerthoedd allweddol yn ei chynllun strategol cyfredol yw "cynwysoldeb, trwy ddileu rhwystrau i gyfranogiad a chefnogi pobl o bob cefndir a phob amgylchiad i gyflawni eu potensial". Mae'r Brifysgol wedi gweithredu'r bwriad strategol hwn drwy lunio Strategaeth Ehangu Mynediad ac Ymgysylltu â'r Gymuned, a ddefnyddir i gynllunio a monitro ei pherfformiad mewn perthynas â chyflawni'r amcanion i "hyrwyddo mynediad a chyfle cyfartal i ddysgwyr, annog pobl o bob cefndir i gyfranogi ar bob lefel, drwy weithgareddau, cynllunio a gwybodaeth, ar sail data am berfformiad i hysbysu prosesau datblygu a chynllunio".

11 Cynlluniwyd a datblygwyd y Ganolfan yng nghyd-destun cenhadaeth ac amcanion craidd y Brifysgol, sy'n cynnwys: cyfuno'r portffolio academaidd amrywiol; cryfhau'r cyfleoedd ehangu mynediad; canfod cyfleoedd i ddenu myfyrwyr o Loegr i Gymru; galluogi i gysylltiadau agosach gael eu datblygu gydag ysgolion, colegau a grwpiau o ddarpar ddysgwyr mewn dinasoedd o fewn cylch o 100 milltir i un o gampysau PCYDDS; datblygu modelau newydd o ddarparu addysg sy'n hybu sgiliau ymarferol a chyflogadwyedd.

12 Ar y cychwyn, roedd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth allgymorth mewn ardaloedd o anfantais economaidd a chyfranogiad isel sy'n ddaearyddol agos at ei phrif gampysau yng Nghymru, ac yng nghyd-destun Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Datblygwyd y rhaglen Tystysgrif mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle yn gyntaf yn 2012 a chafodd ei darparu yn Tidworth, Abertawe, Caerfyrddin, Pontypridd, Llanelli, Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd. Cynlluniwyd patrwm darparu hyblyg y rhaglen i fod yn arbennig o atyniadol i fyfyrwyr sy'n gweithio'n barod a'r rheiny sydd â chyfrifoldebau teuluol.

13 Gwelodd y tîm adolygu gofnodion dogfennol a chlywodd dystiolaeth gan staff y Brifysgol sy'n dangos sut y cynlluniwyd ac y monitrwyd pob cam o'r broses o ddatblygu darpariaeth ar gampws Llundain ac wedyn yn y Ganolfan, a hynny yng nghyd-destun dealltwriaeth gynyddol o anghenion addysgol cymunedau ynghanol dinas sy'n ethnig amrywiol ac nad oedd darparwyr oedd yn bodoli'n barod yn darparu ar gyfer eu hanghenion addysg uwch. Tyfodd y penderfyniad i sefydlu'r Ganolfan yn Birmingham yn uniongyrchol o'i phrofiad o ddarparu cyrsiau yn Llundain ac yn raddol o gynnwys y cyrsiau a'r dulliau addysgol a ddatblygwyd yn wreiddiol wrth gynllunio rhaglenni sy'n berthnasol i anghenion myfyrwyr hŷn o gymunedau o gyfranogiad isel yng Nghymru. Canfu PCYDDS yn y cymunedau ynghanol Llundain ac, yn fwy diweddar, yn Birmingham, bod galw ac angen sylweddol oedd heb eu diwallu am raglenni academaidd a'r mathau penodol o ddulliau darparu hyblyg a ddatblygwyd yn wreiddiol yng nghyd-destun Cymru.

14 Penderfynwyd ar sail y profiad yn Llundain y dylid darparu ar gyfer poblogaeth debyg yn Birmingham. Yn 2012, sefydlwyd campws y Brifysgol yn Llundain i ddarparu i ddechrau ar gyfer myfyrwyr tramor oedd yn dewis astudio rhaglenni astudiaethau busnes ym mhrifddinas y DU. Ond, canfuwyd bod y rhaglen Tystysgrif mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle'n denu myfyrwyr o'r DU/UE o gymunedau ynghanol Llundain. Roedd y mwyafrif o'r rhain yn bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Nifer fechan iawn oedd wedi cymryd rhan mewn addysg uwch o'r blaen, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ond roeddent yn awyddus i ddatblygu sgiliau ac ennill cymwysterau a fyddai'n galluogi iddynt symud ymlaen yn eu swyddi neu ddatblygu eu busnesau eu hunain. Mae'r ddarpariaeth hyblyg, lawn amser sy'n cynnig nifer o bwyntiau mynediad yn galluogi i fyfyrwyr integreiddio'r rhaglen i'w bywydau proffesiynol a phersonol yn fwy llwyddiannus. Mae'r ffaith fod benthyciadau cynhaliaeth a ffioedd ar gael gan Student Finance England yn gwneud y cwrs yn fwy hygyrch i ddysgwyr sydd â moddion cyfyngedig.

15 Roedd timau rheoli'r Brifysgol a'r Ganolfan y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw, yn ogystal â'r dogfennau a gyflwynwyd, yn eglur am y risgiau sy'n gysylltiedig ag ehangu'r ddarpariaeth yn Birmingham a sut maen nhw'n cael eu monitro a'u trin. Cynlluniwyd pob cam o'r broses o ddatblygu'r Ganolfan yn ofalus a chafodd yr holl ganlyniadau a risgiau eu monitro'n systematig. Rhoddir adroddiadau rheolaidd bob chwarter i Gyngor y Brifysgol, yn ogystal â'i Senedd, sy'n rhoi'r diweddaraf ynglŷn â'r nodau a'r amcanion allweddol a osodwyd yn rhan o'r gwaith cynllunio strategol gwreiddiol. Rhoddir adroddiadau ar reoli profiad y myfyrwyr ac ar eu perfformiad academaidd i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd bob chwe mis.

### 1.3 Dull y Brifysgol o ymdrin â'r risgiau yn y ddarpariaeth y tynnwyd sylw atynt

16 Roedd y dystiolaeth a welwyd ac a glywyd gan y tîm adolygu'n tynnu sylw at dri maes perthynol o risg i safonau ac ansawdd y ddarpariaeth sydd wedi galw am sylw arbennig yn y Ganolfan: mae'r nifer o'r myfyrwyr sy'n ymadael cyn y diwedd yn llawer uwch na meincnodau'r sector; mae'r lefelau o 'arferion annheg' yn uwch na'r disgwyl (yn gyffredinol, nifer y myfyrwyr sydd wedi cyflwyno gwaith nad oedd yn waith ganddyn nhw eu hunain); lefelau ymgysylltu llai na boddhaol mewn darlithoedd a dosbarthiadau gan leiafswm o'r myfyrwyr. Ymhob un o'r meysydd hyn, roedd hi'n amlwg bod staff y Brifysgol yn ymwybodol o'r problemau a bod atebion i ymdrin â nhw yn eu lle ac yn dechrau gweithio. Mae'r problemau hyn a'r ymatebion iddynt wedi'u crynhoi isod.

17 Ar adeg yr adolygiad, roedd pum carfan olynol o fyfyrwyr wedi cael lle ar y rhaglen blwyddyn Tystysgrif AU mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle. Dim ond gyda'r garfan gyntaf o fyfyrwyr yr oedd y rhaglen blwyddyn wedi llwyddo i gwblhau. O'r 249 o fyfyrwyr a gofrestrwyd ym mis Mawrth 2018, roedd 85 wedi llwyddo i gyflawni'r dyfarniad ac roedd 42 yn paratoi i ailsefyll rhan o'r rhaglen, ond roedd 114 neu 46% o'r myfyrwyr hynny a gychwynnodd yn wreiddiol wedi tynnu'n ôl o'r rhaglen cyn iddi gwblhau. Roedd y patrwm hwn o adael yn gynnar ac yn barhaus yn amlwg hefyd yn y data ar gyfer carfannau dilynol ond roedd y gyfradd yn gostwng.

18 Mae'r Brifysgol wedi dadansoddi'r rhesymau am gynnydd isel ac wedi gweld mai un rheswm oedd ei bod wedi derbyn myfyrwyr ar y cychwyn nad oeddent yn addas nac yn ymrwymedig, a rheswm arall oedd yr anawsterau yr oedd rhai myfyrwyr wedi'u cael i ddeall ac addasu i ofynion astudio a pherfformio rhaglen addysg uwch. Tynnwyd sylw at y ffaith bod gan gymdogaeth Sparkhill "brofiad hir o rai darparwyr eraill nad ydynt yn gofyn am bresenoldeb na chyflawniad addysgol" ac roedd hynny'n golygu bod rhai myfyrwyr wedi'u cofrestru ar y cychwyn oedd heb ddisgwyliadau priodol ynglŷn ag ymrwymiad. Yn ogystal, er bod myfyrwyr eraill wedi ymrwymo i astudio, roedd angen rhagor o arweiniad arnynt a chymorth wedi'i bersonoli'n arbennig er mwyn cyflawni safonau'r gwaith oedd yn ofynnol.

19 Mewn ymateb, mae'r Brifysgol wedi gweithredu proses dderbyn fwy trwyadl ar sail profion, ac mae wedi cynyddu'n sylweddol yr arweiniad astudio ar sail un-i-un sydd ar gael i'r myfyrwyr yn y Ganolfan. Cynhelir sesiynau cymorth sgiliau astudio yn yr ystafell astudio ar amser penodol bob dydd. Mae contractau talu yn ôl yr awr y darlithwyr yn cynnwys darparu sesiynau sgiliau astudio. Cadarnhaodd y myfyrwyr a'r staff y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw fod yr arweiniad a'r cymorth yn hawdd cael gafael arnynt ac yn effeithiol. Un o fanteision y mesurau hyn oedd bod gofyn i fwy o'r myfyrwyr oedd heb wir ddiddordeb mewn astudio ymadael yn gynnar "gan sicrhau nad ydynt yn gallu hawlio cymorth ariannol gan Student Finance England". Roedd y data ar gyfer carfannau dilynol yn dangos gwell presenoldeb a chynnydd ynghyd ag ymadawiad cynharach y myfyrwyr nad oeddent yn ymgysylltu. Yn ei chyflwyniad, nododd y Brifysgol bod "y Dystysgrif AU wedi'i llunio'n benodol ar gyfer y bobl hynny sydd efallai heb gyfranogi mewn addysg uwch o'r blaen, neu yn ddiweddar, ac mae'n denu myfyrwyr sydd â mathau niferus o ymrwymiadau teuluol ac ymrwymiadau eraill, felly disgwylir i'r cyfraddau sy'n ymadael cyn y diwedd fod yn uwch nag ydyw ar raglenni mwy traddodiadol". Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau**'r camau a gymerir i ymdrin â phroblemau gyda chadw myfyrwyr mewn ffordd systematig.

20 Rhwng Mawrth 2018 ac Ebrill 2019, cafwyd 114 o honiadau o arferion annheg yn erbyn 88 o fyfyrwyr, ac roedd 105 o'r rhain yn droseddau cyntaf. Yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer ystyried honiadau o arferion annheg, derbyniwyd 96 o'r honiadau, ac ystyriwyd 18 o'r honiadau gan banel ymchwilio; cafodd y mwyafrif llethol ohonynt eu profi, gan olygu bod y myfyriwr wedi derbyn rhybuddion ffurfiol a/neu wedi derbyn marc sero am elfen yr asesiad yr effeithiwyd arni.

21 Yn y cyfarfodydd gyda staff addysgu gwelwyd bod yr honiadau'n ymwneud yn bennaf gyda llên-ladrad, cyd-dwyllo rhwng myfyrwyr a myfyrwyr oedd wedi cyflwyno gwaith nad oeddent wedi'i wneud eu hunain. Mewn ymateb, mae'r Ganolfan wedi rhoi rhagor o wybodaeth i'r myfyrwyr yn ystod sesiynau cynefino i esbonio beth yw ymddygiad academaidd derbyniol ac addasu asesiadau fel bod y rhain yn digwydd yn bennaf o fewn yr ystafell ddosbarth ac yn caniatáu i unrhyw wahaniaethau rhwng y gwaith a wneir gartref a'r gwaith a wneir yn y Ganolfan fod yn fwy amlwg.

22 Soniodd y staff a'r myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw am ymddygiad aflonyddgar mewn rhai dosbarthiadau, er enghraifft myfyrwyr oedd heb fawr ymrwymiad nag ymgysylltiad yn siarad dros y darlithydd ac yn cyrraedd yn hwyr. I ryw raddau, mae'r problemau hyn yn gostwng pan fydd myfyrwyr yn tynnu'n ôl o raglenni. Dywedodd y staff addysgu bod y problemau hyn gydag ymddygiad wedi bod yn destun trafod yn ystod symposia staff a bod hynny'n ddefnyddiol. Dywedwyd hefyd bod rhai o'r staff wedi bod i sesiynau datblygiad staff ar reoli dosbarth a bod hynny'n ddefnyddiol hefyd.

### 1.4 Casgliad y tîm adolygu

23 Mae'r adran hon o'r adroddiad wedi canolbwyntio ar y sail resymegol am ddatblygiad presenoldeb arwyddocaol PCYDDS yn Birmingham, ac ar ymatebion y Brifysgol i'r heriau sy'n ymwneud â rheoli ansawdd a safonau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu'r Ganolfan. Er bod Cynllun Strategol 2017-22 PCYDDS yn nodi hyn yn glir: "yn greiddiol i'n Cynllun Strategol mae ymrwymiad i'n holl ddysgwyr ac i Gymru'n benodol - i'w diwylliant, ei threftadaeth a'i hiaith, ac i ffyniant ac iechyd hirdymor ei dinasyddion", mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod "ei rhan leol, genedlaethol, ryngwladol a dinesig yn ddarparwr addysg uwch" yn ehangach. Yn arbennig, mae'r Brifysgol wedi nodi ymrwymiad yn ei Strategaeth Ehangu Mynediad ac Ymgysylltu â'r Gymuned i ddarparu addysg i'r rheiny sy'n ceisio ail gyfle i fynd i mewn i addysg uwch, yn arbennig y cymorth i gyflawni targedau cyflogaeth neu hunangyflogaeth. Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd a nifer y cofrestriadau a gafwyd yn y Ganolfan yn ei blwyddyn gyntaf yn dangos bod cronfa bwysig a nodedig o anghenion a galw heb eu diwallu ymysg cymunedau mudol cenhedlaeth gyntaf ac ail genhedlaeth Sparkhill a rhannau cyfagos o Birmingham, nad oedd darparwyr addysg uwch mwy lleol yn darparu ar eu cyfer. Mae'r Brifysgol wedi bod yn agored yn y dystiolaeth y mae hi wedi'i chyflwyno i ddangos yr anawsterau sy'n gallu codi wrth ddatblygu canolfan newydd bellter o'r prif gampysau, ond mae hi wedi dangos hefyd sut y mae'n mynd ati i ymdrin â'r problemau hyn, ac yn arbennig sut mae ei phrofiad eithriadol o ddarparu cyfleoedd addysg uwch hyblyg i gymunedau yng Nghymru a Llundain yn berthnasol ac yn gymwys yn Birmingham.

## 2 Bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol

24 Archwiliodd y tîm adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio i sicrhau bod ei darpariaeth yn cydymffurfio â gofynion yr amrywiol gyrff rheoleiddio a chodau ymarfer a chanllawiau sy'n berthnasol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a gweddill y DU. Mae'r rhain yn cynnwys: y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru gan CCAUC; y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop; y Cod Llywodraethu Addysg Uwch a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion; y gofynion cynllunio ac ariannol gan CCAUC sydd wedi'u gosod mewn Memorandwm o Sicrwydd ac Atebolrwydd y cytunwyd arno; y datganiad blynyddol o sicrwydd a gyflwynir gan Gyngor y Brifysgol i CCAUC; cydymffurfiad â deddfwriaeth diogelu defnyddwyr y DU a'r cyfarwyddyd a roddir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd; y canllawiau arferion da ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau a roddir gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol; y Safonau Iaith Gymraeg cyfreithiol rwymol a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg sy'n berthnasol i ddarpariaeth yng Nghymru.

25 I sicrhau cydymffurfiad â gofynion sylfaenol, mae'r Brifysgol yn gweithredu'r un rheoliadau academaidd a threfnau rheoli ansawdd ar gyfer ei holl ddarpariaeth lle bynnag y mae'n cael ei darparu, gan gynnwys yn Llundain a Birmingham. Felly, nid oedd angen llunio polisïau a gweithdrefnau ar gyfer y Ganolfan sy'n wahanol i'r rheiny a ystyriwyd ac a farnwyd yn rhai boddhaol mewn adolygiadau blaenorol, gan gynnwys yr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru o PCYDDS a weithredwyd gan QAA yn 2015 a'r Adolygiad thematig o'r ddarpariaeth ar gampysau yn Llundain a wnaed gan QAA yn 2014. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r tîm adolygu'n dangos bod y Brifysgol wedi gwirio a diweddaru ei pholisïau a'i gweithdrefnau yn erbyn y gofynion sylfaenol perthnasol yn rheolaidd, unwaith y flwyddyn o leiaf fel arfer ac hefyd pan fyddai cyfarwyddyd newydd yn cael ei gyhoeddi.

26 Hyd fis Awst 2019, mae ansawdd a safonau dyfarniadau'r Brifysgol yn cael eu mapio yn erbyn Disgwyliadau Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU presennol (y Cod Ansawdd), ac mae gwaith wedi cychwyn yn barod i sicrhau cydymffurfiad â'r Cod Ansawdd diwygiedig a fydd yn weithredol o fis Medi 2019 ymlaen. Mae pob un o'r rhaglenni a ddarperir yn y Ganolfan wedi cael eu darparu o'r blaen ar safleoedd eraill y Brifysgol ac wedi derbyn cymeradwyaeth yn unol â'r gweithdrefnau sydd i'w cael yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Yn arbennig, dilyswyd y rhaglen Tystysgrif AU mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle'n wreiddiol yn 2012 a chafodd Adolygiad Mawr ac Ail-ddilysiad ym mis Mawrth 2017.

27 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn disgrifio rheoliadau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer monitro rhaglenni academaidd yn flynyddol a'u hadolygu'n gyfnodol, ac mae'r canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd. Ond, ar gyfer rhaglenni israddedig oedd wedi'u darparu yn y flwyddyn academaidd 2017-18, penderfynodd y Brifysgol ddirymu'r trefniadau arferol ar gyfer proses Adolygiad Blynyddol Rhaglenni (ABRh) a rhoi'r prosesau yn eu lle sy'n berthnasol i'r holl raglenni yn rhan o Gynlluniau Peilot fesul Maes Astudio 2018-19 y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA). Mae PCYDDS yn un o 50 o sefydliadau sydd wedi'u dewis gan y Swyddfa Myfyrwyr i gymryd rhan yng Nghynlluniau Peilot fesul Maes Astudio'r FfRhA, a phenderfynodd y Brifysgol y byddai'r broses hon, sy'n gofyn am ddadansoddi data'n fanwl ar gyfer pob un o'r meysydd astudio, gan gynnwys gwerthusiadau myfyrwyr a chanlyniadau asesiadau, yn mynd y tu hwnt i gwmpas y broses ABRh. Fodd bynnag, am fod Cynlluniau Peilot y FfRhA yn ymdrin â meysydd astudio gweddol fawr, nid yw'r ddarpariaeth yn y Ganolfan wedi mynd drwy broses eto sy'n gyfatebol â'r ABRh ers ei chychwyniad ym mis Mawrth 2018.

28 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cynhyrchu a gwirio gwybodaeth ar gyfer y Ganolfan yr un fath â'r rheiny ar gyfer campysau eraill. Cynhyrchir prosbectysau, deunyddiau cyhoeddusrwydd a gwybodaeth arall, mewn print ac ar-lein, yn bennaf gan staff Marchnata a Chyfathrebu'r Brifysgol, ar sail gwybodaeth a ddarperir gan y timau academaidd. Mae gofyn i benaethiaid yr ysgolion a rheolwyr yr unedau (gan gynnwys yn y Ganolfan) gymeradwyo'r deunyddiau cyhoeddusrwydd a'r wybodaeth arall am raglenni a gwasanaethau sy'n benodol berthnasol i'w lleoliadau cyn eu cyhoeddi, ac maent yn gyfrifol am gywirdeb yr wybodaeth. Mae gan y Ganolfan ei thudalennau gwe ei hun ar wefan y Brifysgol sy'n rhoi manylion, gan ddefnyddio fformat safonol y Brifysgol, am nodweddion allweddol y rhaglenni cyfredol, gan gynnwys gwybodaeth am y costau astudio a dolenni at wybodaeth am ysgoloriaethau a bwrsariaethau. Fodd bynnag, nododd y tîm adolygu nad oes unrhyw wybodaeth ar gael ar hyn o bryd ar wefan y Ganolfan am y rhaglen Tystysgrif Addysg Uwch mewn Rheolaeth Gwestai Rhyngwladol, sy'n cael ei haddysgu i'r garfan gyntaf o 84 o fyfyrwyr. Dywedwyd wrth y tîm adolygu mai'r rheswm am hynny oedd na ellid gwneud penderfyniad i hysbysebu swyddi gwag nes byddai'r trafodaethau i sicrhau lle ychwanegol ar gyfer y Ganolfan wedi'u cwblhau'n llwyddiannus (gwelwch baragraff 54). Nid oedd yr wybodaeth am y dystysgrif hon yn adlewyrchu'r rhaglen yn fanwl gywir yn wreiddiol, yn arbennig natur y lleoliadau gwaith a'r defnydd a wneir ohonynt. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau y bydd y myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth fwy eglur yn y dyfodol am argaeledd a natur y rhaglen Tystysgrif Addysg Uwch mewn Rheolaeth Gwestai Rhyngwladol.

29 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y dystiolaeth a glywyd a'r deunyddiau dogfennol ac ar-lein a welwyd ganddo'n caniatáu iddo wneud beirniadaeth gadarnhaol: mae gan y Brifysgol weithdrefnau priodol i reoli cydymffurfiad â'r gofynion sylfaenol sy'n berthnasol i sefydliadau addysg uwch yn y DU, gyda'r amodau sydd wedi'u nodi ym meirniadaeth y tîm.

# 3 Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

## 3.1 Y dull strategol o wella profiad y myfyrwyr

30 Mae dull y Ganolfan o wella profiad dysgu'r myfyrwyr wedi'i yrru gan gynllun strategol cyffredinol PCYDDS ar gyfer 2017-22. Am mai ers mis Mawrth 2018 yn unig y mae'r Ganolfan wedi bod yn weithredol, nid yw'r dull hwn wedi'i grybwyll yn ffurfiol yn y cynllun strategol cyffredinol nac yn y prosbectws ar gyfer 2019. Ond, clywodd y tîm adolygu gan staff uwch bod lle strategol gan y Ganolfan yn y Strategaeth Ehangu Mynediad ac Ymgysylltu â'r Gymuned gyda ffocws arbennig ar gymunedau ethnig a dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU.

31 Yn ymarferol, mae'r Ganolfan wedi cyflwyno symposiwm sy'n gyfle i drafod canlyniadau a phrofiadau'r myfyrwyr yn y Ganolfan ar lefel strategol. Roedd y staff y cyfarfu'r tîm â nhw'n disgrifio'r symposiwm fel un sydd ag elfen o'r 'gwaelod i fyny' ac elfen o'r 'brig i lawr' sy'n caniatáu i'r staff gymryd camau gweithredu i wella profiad y myfyrwyr, a chafwyd enghreifftiau ganddynt o'r ffordd y mae patrymau o ddarparu modiwlau wedi newid i sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiadau ffafriol.

## 3.2 Y dull o weithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr

32 Mae'r Ganolfan yn cynnwys ei myfyrwyr fel partneriaid, yn bennaf drwy gynrychiolwyr myfyrwyr sy'n ymgysylltu â'u cymheiriaid ac yn cynrychioli llais y myfyriwr mewn pwyllgorau staff-myfyrwyr. Nododd y staff yn y Ganolfan nad yw'r myfyrwyr fel arfer yn cymryd rhan mewn gwerthusiadau o fodiwlau. Yn hytrach, maent yn ymgysylltu â'u cynrychiolwyr myfyrwyr yn effeithiol sy'n cyfarfod â'r staff academaidd a'r staff cymorth ac yn ymgysylltu â nhw'n aml. Roedd rhywfaint o wahaniaeth barn rhwng y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm arolygu â nhw ynglŷn â rôl cynrychiolwyr y myfyrwyr. Ond, roeddent yn cytuno bod y system gynrychioli bresennol wedi bod yn effeithiol o ran codi pryderon ac ymdrin â nhw, yn ogystal â dod â newidiadau drwy ddefnyddio system oleuadau traffig fel y dull allweddol o hysbysu am y datblygiad a gafwyd mewn ymateb i faterion a godwyd. Hysbysir system gynrychiolaeth y myfyrwyr gan Undeb y Myfyrwyr PCYDDS, gyda'r nod o gydweithio'n agos drwy gynadleddau a gynhelir yng Nghymru.

## 3.3 Cydnabod ac ymateb i'r amrywiaeth ym mhoblogaeth y myfyrwyr, gan gynnwys dulliau o ehangu mynediad, anghenion grwpiau penodol o fyfyrwyr, ac ystyried y dull astudio, lefel yr astudio a'r lleoliad astudio

33 Ar lefel strategol, mae'r Ganolfan wedi'i hymrwymo i Strategaeth Ehangu Mynediad ac Ymgysylltu â'r Gymuned PCYDDS, a'i nod yw gweddnewid bywydau unigolion sy'n dod o grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol mewn cymdeithas. Roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw'n cynnwys y canlynol: rheiny oedd wedi gadael addysg ac eisiau dychwelyd; myfyrwyr oedd â busnesau bach a chanolig, myfyrwyr oedd yn gobeithio symud i lefel arall o waith, a myfyrwyr eraill oedd heb gael y cyfle i gael addysg uwch oherwydd ymrwymiadau teuluol. Wrth i'r Ganolfan ddod yn fwy ymwybodol o broffil y corff myfyrwyr a'r profiadau sydd ganddynt, roeddent wedi cydnabod bod angen newid eu systemau addysg er mwyn sicrhau darpariaeth effeithiol i fyfyrwyr sy'n ceisio ail gyfle.

34 Yn wreiddiol, cafodd y rhaglen Tystysgrif AU mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle ei ffurfio ar gyfer grwpiau oedd heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru ac mae hi wedi cael ei haddasu ar gyfer y gymuned yn Birmingham er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl

ym meysydd darpariaeth modiwlau, asesiadau ac amseroedd astudio. Mae'r rhaglen hon yn un llawn amser am gyfnod o 12 mis gyda thri derbyniad, ar hyn o bryd ym misoedd Tachwedd, Mawrth a Gorffennaf, gyda newidiadau'n digwydd o fis Mai 2019 ymlaen i gyflwyno derbyniadau ym misoedd Medi, Ionawr a Mai er mwyn alinio gyda gwyliau ysgolion oherwydd natur ac anghenion eu myfyrwyr hŷn. Y farn hefyd yw bod hon yn strategaeth a fydd yn cynyddu'r lefelau presenoldeb ac yn cael effaith bositif ar gadwraeth. Roedd y tîm yn pryderu y byddai gorgyffwrdd rhwng nifer y myfyrwyr gyda'r dyddiadau derbyn newydd yn effeithio ar allu ac adnoddau'r Ganolfan. Roedd staff uwch a staff cymorth wedi rhoi sicrwydd i'r tîm ac wedi darparu tystiolaeth oedd yn dangos bod cynlluniau ehangu yn eu lle i ymdrin â'r gorgyffwrdd gyda chynlluniau i benodi rhagor o staff academaidd a bugeiliol i gefnogi'r myfyrwyr ac i gynyddu'r adnoddau ffisegol a digidol.

35 Ym mis Tachwedd 2018, i gydnabod bod angen sicrhau bod profiad y myfyrwyr yn gydlynol ac yn gymaradwy ar draws y safleoedd, trefnwyd symposiwm gan y Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Mentrau Rhyngwladol) a Deon y Gyfadran Busnes a Rheolaeth i edrych ar ffyrdd o wahaniaethu darpariaeth y rhaglen i ymateb i anghenion lleol. Cafodd y symposiwm nifer o ganlyniadau, fel a ganlyn. Gyda'r nod o wella'r cyfraddau cadwraeth myfyrwyr yn y Ganolfan, penderfynwyd y dylid newid y drefn o ddarparu'r rhaglen o bedwar modiwl bob tymor i ddau fodiwl (gan gadw'r llwyth credyd cyffredinol o 40 o gredydau'r tymor). Dyma fanteision y newid hwn i'r myfyrwyr: galluogi i fyfyrwyr ganolbwyntio ar eu dysgu mewn un o'r meysydd astudio gan roi mwy o ffocws; cyflwyno rhagor o gyfleoedd asesu yn y dosbarth drwy gydol y tymor, yn hytrach nag un cyflwyniad unigol ar ei ddiwedd; a rhoi cyfle i'r myfyrwyr ail-ennill hyd at 20 o gredydau a fethwyd mewn tymor dilynol, yn hytrach na gorfod aros tan ddiwedd eu rhaglen. Ni chafodd y patrwm darparu newydd hwn effaith ar arddull cyffredinol y ddarpariaeth addysgu yn y Ganolfan, sydd wedi cynnwys cymysgedd o theori ac ymarfer bob amser gyda'r nod o wella ymgysylltiad y myfyrwyr.

36 Mae'r Ganolfan yn cydnabod bod ganddi broblem gyda'r nifer o'i myfyrwyr sy'n ymadael cyn y diwedd, sydd yn uwch na'r meincnod. Dangoswyd tystiolaeth i'r tîm ynghyd ag enghreifftiau o'r ffordd y mae'r Ganolfan yn brysur ymdrin â'r broblem gyda mesurau penodol, megis: cryfhau'r broses dderbyn; gwella'r strwythurau addysgu; gwella'r fframwaith cymorth myfyrwyr a'r trefnau cymorth ariannol; gwella'r mesurau cymorth academaidd sy'n cynnwys cynnig dosbarthiadau ychwanegol (er enghraifft, sesiynau cymorth TG pwrpasol); cynnal gweithdai cymorth 30 munud ar ôl diwedd pob gwers; gosod dyddiadau targed drafft ar gyfer adborth ffurfiannol; llunio gwerslyfrau am ddim sy'n benodol berthnasol i'r rhaglenni; a chynnig darpariaeth i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael gafael ar gymorth bugeiliol. Darparodd y Ganolfan dystiolaeth oedd yn dangos rhywfaint o welliannau yn y cyfraddau cadwraeth ar gyfer carfannau'r rhaglenni Tystysgrif AU, ond mae hi'n rhy fuan i gael data defnyddiol sy'n dangos tuedd. Felly, mae'r tîm adolygu'n **canmol** y Ganolfan am y camau a gymerir i addasu trefn ddarparu'r rhaglen i sicrhau bod y myfyrwyr yn ymgysylltu'n effeithiol â'u dysgu.

37 Mae'r Ganolfan yn cefnogi ei myfyrwyr i'w datblygu fel dysgwyr, yn ganolog ac ar lefel y Brifysgol. Gall y myfyrwyr gael gafael ar Lwfans Myfyrwyr Anabl i wella eu dysgu. Mae'r Ganolfan yn ymwybodol bod angen iddi ddatblygu'r ddarpariaeth hon yn rhagweithiol ac yn barhaus, a soniodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw, sy'n derbyn y lwfans hwn, am ddull rhagweithiol y Ganolfan i ganfod eu hanghenion a'u helpu yn eu dysgu.

## 3.4 Cefnogi'r myfyrwyr i'w datblygu fel dysgwyr

38 Mae'r rhaglen Tystysgrif Addysg Uwch Lefel 4 mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle a gynigir yn y Ganolfan yn ganolog i'r Strategaeth Ehangu Mynediad ac Ymgysylltu â'r Gymuned sy'n canolbwyntio ar grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg uwch ac mae'n cefnogi dysgwyr sy'n mynd ymlaen i mewn i feysydd astudio megis y rhaglen BA mewn Sgiliau Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer y Gweithle, gan hybu symudedd cymdeithasol a mynd i'r afael â thlodi.

39 Nod y Ganolfan yw cefnogi ei myfyrwyr o'u recriwtiad cychwynnol ac mae ei thîm derbyn yn helpu'r myfyrwyr i gwblhau'r broses o wneud cais i'r Brifysgol ac i wneud cais am gymorth ariannol gan Student Finance England. Cafwyd sylwadau gan fyfyrwyr am y ffordd y mae'r Ganolfan, yn ystod y broses dderbyn a chofrestru, wedi'u cynorthwyo, eu cyfarwyddo, eu hannog a'u cyfeirio i'r mannau cywir i gael gafael ar gymorth a chwblhau eu ceisiadau. Unwaith y maent wedi cofrestru ar eu cyrsiau, mae'r myfyrwyr yn cael rhaglen gynefino orfodol sy'n gynhwysfawr, sy'n cael ei rhoi yng nghyd-destun y safle darparu penodol ac sy'n cynnwys materion academaidd ac ymarferol, megis TG, rheoliadau ar gyfer ymdrin ag arferion annheg, llawlyfr y rhaglen a llawlyfrau ei modiwlau, a chanllawiau sy'n cynnwys crynodebau ar-lein o adrannau perthnasol o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd, er enghraifft, cwynion ac apeliadau. Cyflwynir y myfyrwyr i adran Gwasanaethau Myfyrwyr y Brifysgol sy'n gweithredu ar bob un o'i champysau ac ymhob un o'i chanolfannau, ac hefyd yn y Ganolfan. Mae gan y Ganolfan ddau weithiwr sydd wedi'u cyflogi ar gontract 'ffracsiynol' ac sydd â chymhwyster proffesiynol, y mae un ohonynt yn gwnselydd sydd ag achrediad Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain, ac mae'n bwriadu penodi cynghorydd gyrfaoedd. Mae ganddi hefyd dri gweithiwr llawn amser yn ei Gwasanaethau Myfyrwyr sy'n ymroddedig i roi cymorth bugeiliol ac i ymgysylltu â'r myfyrwyr. Mae darpariaeth Gwasanaethau Myfyrwyr y Ganolfan wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â thimau Gwasanaethau Myfyrwyr canolog y Brifysgol, a chynhelir cyfarfodydd ac ymweliadau ar draws y campysau'n rheolaidd. Mae'r modiwl cyntaf y mae'r myfyrwyr yn ei wneud yn ymwneud â sgiliau academaidd, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cynefino ac yn gyfforddus â'r dysgu ar Lefel 4, a galluogi i'r staff ganfod unrhyw anghenion dysgu'n gyflym y mae cymorth ar gael ar eu cyfer, megis Lwfans Myfyrwyr Anabl.

40 Sesiynau Sgiliau Astudio yw'r brif elfen y mae'r Ganolfan yn ei defnyddio i gefnogi ei myfyrwyr amrywiol i'w datblygu nhw fel dysgwyr. Mae staff a myfyrwyr wedi nodi mor ddefnyddiol yw'r sesiynau, oherwydd mae aelod o'r staff ar gael i'r myfyrwyr am ddwy awr y dydd a fydd yn eu helpu i ddatblygu sgiliau hanfodol sy'n amrywio o sgiliau ysgrifennu academaidd i sgiliau TG. Felly, mae'r tîm adolygu'n **canmol** y gefnogaeth wedi'i phersonoli sydd ar gael i'r myfyrwyr drwy gydol taith y myfyriwr - gan gynnwys y mecanweithiau ar gyfer paratoi, cymdeithasu, cynefino a chofrestru myfyrwyr.

## 3.5 Yr amgylchedd dysgu a ddarperir, gan gynnwys y defnydd a wneir o dechnoleg

41 Mae gan y Ganolfan ystafell TG gyda 15 o gyfrifiaduron personol sydd ar gael i bawb heb fod angen cofrestru rhwng 8.30 a 17.30, Dydd Llun i Ddydd Gwener; mae tri chyfrifiadur ar gael yn yr ystafell gyffredin yn ystod yr un oriau, ac mae rhwydwaith Wi-Fi ar gael am ddim i fyfyrwyr sydd â'u dyfeisiau eu hunain. Mae gan y Ganolfan hefyd bedwar 'cloer gliniadur' a chan bob un 20 o liniaduron sydd ar gael i'w defnyddio yn y dosbarth; tra bo myfyrwyr ag anableddau dysgu penodol yn derbyn cyfrifiaduron i'w defnyddio ar y campws wrth aros am gael Lwfans Myfyrwyr Anabl. Mae technegydd wedi'i seilio yn y Ganolfan sy'n darparu cymorth galw heibio am bedair awr y dydd ac sydd ar gael yn ystod amser cinio yn yr ystafell TG. Mae deunyddiau arweiniad a chymorth ysgrifenedig ar gael mewn print drwy'r adeilad cyfan, ac ar-lein hefyd. Mae myfyrwyr yn nodi bod digon o gyfrifiaduron a gliniaduron ar gael iddynt am fod y rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn meddu ar eu gliniaduron eu hunain ac yn mewngofnodi i rwydwaith Wi-Fi y Ganolfan.

42 Ar hyn o bryd nid oes llyfrgell fenthyg, ond bwriedir sefydlu swydd 'ffracsiynol' i lyfrgellydd ar gyfer 2019-20 wrth i'r portffolio academaidd a'r stoc llyfrau gynyddu; ar hyn o bryd, darperir cymorth llyfrgell gan y Llyfrgellydd Academaidd Cyswllt sydd wedi'i seilio ar gampws Llundain ac sy'n darparu sesiynau a addysgir yn ystod y tymor cyntaf ynglŷn â sut i ddefnyddio'r cyfleusterau llyfrgell. Mae'r Gyfadran Busnes a Rheolaeth wedi datblygu gwerslyfrau pwrpasol i gefnogi'r rhaglen Tystysgrif AU, ac mae'r rhain wedi'u cyhoeddi gan Sage. Hysbyswyd y tîm am y cynlluniau i sefydlu ystorfa ffisegol anffurfiol yn yr adeilad newydd lle bydd y llyfrgellydd yn gweithredu fel Llyfrgellydd Academaidd Cyswllt i gyfeirio myfyrwyr at yr adnoddau, ac roedd

y staff uwch yn hyderus eu bod yn gallu darparu rhaglenni Lefel 5/6 heb lyfrgell ffisegol. Mae'r ffocws ar adnoddau dysgu digidol yn unol â dull cyffredinol yr adran Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu, a rhoddodd y myfyrwyr sylwadau positif am y nifer enfawr o ddeunyddiau sydd ar gael iddynt ar-lein. Polisi'r Brifysgol yw datblygu gwasanaeth llyfrgell ddigidol yn hytrach nag adnoddau mewn print. Mae'r Gyfadran wedi datblygu gwerslyfrau ar gyfer y rhaglen BA / Tystysgrif AU mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle sydd ar gael yn rhad ac am ddim i'r myfyrwyr. Gall y myfyrwyr ddefnyddio Moodle a llyfrgell ar-lein y Brifysgol y maent yn teimlo ei bod yn ddigonol ac maent yn cael mynediad ar-lein i'r deunyddiau gartref hefyd.

43 Mae cynlluniau eraill i gyfoethogi'r amgylchedd dysgu'n cynnwys adeiladu perthnasoedd o fewn y gymuned, gyda datblygiadau i ganiatáu i ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus gymryd rhan mewn hyfforddiant datblygu sgiliau, ac i wella hygyrchedd beiciau drwy'r fenter beiciau gymunedol.

### 3.6 Effeithiolrwydd y dull o wella profiad dysgu'r myfyrwyr

44 Mae dull y Ganolfan o wella profiad dysgu'r myfyrwyr yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar y myfyrwyr. Ers ei chychwyniad, mae'r Ganolfan wedi cymryd camau i sicrhau bod ei darpariaeth yn cael ei haddasu i anghenion poblogaeth ei myfyrwyr, a rhoddwyd enghreifftiau amrywiol sy'n dangos sut y mae hyn yn cael ei weithredu'n ymarferol. Ar sail yr enghreifftiau a roddwyd a'r trafodaethau y mae'r tîm adolygu wedi'u cynnal gyda'r staff a'r myfyrwyr, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod gan y Ganolfan ddull o wella profiad dysgu'r myfyrwyr sy'n effeithiol, yn hyblyg ac yn systematig.

## 4 Cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu

### 4.1 Y Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi

45 Mae dull y Brifysgol o gynllunio i'r dyfodol, gan gynnwys y defnydd a wneir o wybodaeth er mwyn pennu blaenoriaethau o ran gwella'r dysgu a'r addysgu, wedi'u hesbonio'n glir yn ei Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi. Lluniwyd y Strategaeth hon i wella perfformiad y Brifysgol mewn perthynas â'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu, yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, yr Arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch / Canlyniadau Graddedigion, ac mewn perthynas â chadwraeth. I'r pwrpas hwn, mabwysiadwyd pedair egwyddor allweddol: dysgu ar y cyd gyda ffocws proffesiynol sydd wedi'i bersonoli ac sy'n gynhwysol. Gosodwyd mesuriadau o lwyddiant, sydd wedi'u halinio â'r Cynllun Strategol a'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, ar gyfer pob un o'r egwyddorion allweddol i alluogi monitro a gwerthuso'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig. Mae targedau ar lefel sefydliadol wedi'u hadleisio ar lefel y cyfadrannau, lle maent yn darparu fframwaith trosfwaol ar gyfer datblygu a gweithredu cynlluniau penodol ar lefel leol. Hysbysir dull y Brifysgol o sefydlu a datblygu'r Ganolfan yn glir gan yr egwyddorion a'r amcanion sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi, er bod angen darparu'r manylion o hyd ar ffurf cynllun gweithredu pwrpasol gyda thargedau penodol ar gyfer y Ganolfan.

46 Mae'r Strategaeth hon yn sail ar gyfer rhaglen o ddatblygiad staff i staff academaidd a staff cymorth proffesiynol, sydd wedi'i disgrifio mewn cynllun datblygu staff blynyddol. Yn nhermau dysgu ac addysgu, mae'r cynllun wedi canolbwyntio ar arweinyddiaeth academaidd, cymwysterau addysgu, cadwraeth, dysgu ar y cyd, ac iechyd meddwl. Mae ystorfa datblygiad staff ganolog yn cynnwys casgliad o gyfleoedd hyfforddi a datblygu, megis pecynnau hyfforddi ar-lein. Mae'r cyfadrannau'n defnyddio eu dadansoddiadau o ganlyniadau'r prosesau ar gyfer arfarnu staff, arsylwi addysgu gan gymheiriaid a chasglu adborth gan fyfyrwyr i osod eu themâu datblygiad staff eu hunain.

### 4.2 Cefnogi a datblygu staff ac ymgysylltu â nhw

47 Cyflogir staff yn y Ganolfan ar yr un sail â staff ar safleoedd eraill y Brifysgol, gan gynnwys mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer penodi, ymsefydlu, profi, arfarnu, arsylwi gan gymheiriaid a darparu cyfleoedd datblygiad staff. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i anghenion datblygiad staff sy'n newydd i'r Brifysgol a/neu'r Ganolfan, a chynhaliwyd wythnosau datblygiad penodol pan sefydlwyd y Ganolfan ym mis Chwefror 2018 ac wedyn ym misoedd Medi 2018 a Chwefror 2019. Ymysg themâu'r sesiynau roedd: gwneud cais am statws Cymrawd yr Academi Addysg Uwch (AAU), rheoli ymddygiad a gwrthdaro, a hyfforddiant Insights, sy'n feddalwedd cyfathrebu ar gyfer y dosbarth. Bwriedir cynnal rhagor o weithdai ar sut i wneud cais am statws Cymrawd yr AAU, ac mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â Phrentisiaethau Uwch i staff, yn arbennig mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth academaidd. Mae'r staff academaidd wedi cymryd rhan mewn dwy rownd o arsylwi addysgu yng ngwanwyn a hydref 2018. Cafodd adroddiad am ganlyniadau'r gyfres gychwynnol o arsylwadau ei ystyried gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd ym mis Mehefin 2018. Cadarnhaodd y staff academaidd a'r staff cymorth proffesiynol y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw fod rhagor o gyfleoedd datblygiad mewnol ac allanol ar gael iddynt, gan gynnwys uwchraddio cymwysterau, ennill statws Cymrawd yr AAU, a mynd i gynadleddau a digwyddiadau hyfforddi.

48 Mae aelodau newydd o'r staff addysgu'n ymuno â rhwydwaith o diwtoriaid sy'n darparu'r un modiwl mewn gwahanol leoliadau, gan rannu adnoddau dysgu sydd ar gael ar y rhith-amgylchedd dysgu. Mae sefydliad symposiwm i adolygu darpariaeth y rhaglen Tystysgrif AU mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle'n rhoi cyfle i'r staff gefnogi arloesi a rhannu arferion da.

49 Mae'r tîm adolygu'n cadarnhau bod gan y Brifysgol ddull strategol o sicrhau gwelliant mewn dysgu ac addysgu ac mae tystiolaeth o hyn i'w weld yn y Ganolfan. Mae staff sy'n newydd i'r Brifysgol a/neu'r Ganolfan yn cael eu hymsefydlu yn effeithiol yn eu rolau, ac mae eu hanghenion parhaus yn cael eu diwallu drwy raglen gyfoethog o weithgareddau hyfforddi a datblygu. Cefnogir y staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgolheigaidd a datblygiad proffesiynol, a hwylusir rhannu arferion da drwy gyflwyno symposia a'u gweithgorau cysylltiedig.

## 5 Sicrhau ansawdd a safonau

50 Mae dull y Brifysgol o reoli ansawdd a safonau wedi'i ddisgrifio yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd sy'n berthnasol i'w holl gyrsiau, beth bynnag fo lefel, dull neu leoliad eu darparu. Mae pob aelod o'r staff yn derbyn copi caled o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd, sy'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn, ac sy'n hawdd cael gafael arno o wefan y Brifysgol. Mae'n darparu fframwaith sicrhau ansawdd sy'n gynhwysfawr ac yn gadarn, ac sy'n cynnwys: manylion am strwythur y pwyllgorau ymgynghori, trefniadau ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni, rheoliadau academaidd ar gyfer dyfarniadau a addysgir a dyfarniadau ymchwil, a phrosesau asesu, arholi allanol a gwella ansawdd.

51 Mae'r Brifysgol yn defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol yn effeithiol i osod a chynnal safonau academaidd ei dyfarniadau. Mae rheoliadau dyfarnu'r Brifysgol wedi'u llunio i ateb gofynion *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC): trwy wneud hynny, maent yn cysylltu â'r fframweithiau ar gyfer cymwysterau yn Ardal Addysg Uwch Ewrop a'r FHEQ. Mae rheoliadau, polisïau, gweithdrefnau ac arferion y Brifysgol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn alinio gyda'r Cod Ansawdd a'u bod yn parhau'n gyfredol; mae gwaith ar droed i sicrhau bod Disgwyliadau'r Cod diwygiedig yn cael eu bodloni.

52 Mae'r ddarpariaeth academaidd a gynigir yn y Ganolfan yn gweithredu yn unol â'r fframweithiau ar gyfer rheolaeth academaidd a goruchwyliaeth gan bwyllgorau ymgynghori sydd wedi'u disgrifio yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Rheolir y Ganolfan drwy'r campws yn Llundain sydd â statws cyfadran i bwrpasau cynllunio ac i bwrpasau eraill.

Mae gan y gyfadran yn y Ganolfan y prif gyfrifoldeb am raglenni a ddarperir yno ac mewn lleoliadau eraill, ac mae'r gyfadran yn cyflawni ei chyfrifoldeb drwy ei byrddau; ar hyn o bryd, mae holl raglenni'r Ganolfan wedi'u lleoli yn y Gyfadran Busnes a Rheolaeth. Mae gan y Senedd y cyfrifoldeb cyffredinol am ansawdd a safonau. Ar lefel y Brifysgol, y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd sy'n gwneud y gwaith mwy manwl, a'r byrddau cyfadran sy'n gwneud hynny ar lefel leol. Mae'r Pwyllgor hwn wedi derbyn diweddariadau rheolaidd am faterion ansawdd ac am ddatblygiadau allweddol yn y Ganolfan ers mis Mehefin 2018.

53 Mae'r holl raglenni a ddarperir ar hyn o bryd yn y Ganolfan wedi cael eu dilysu/ hail-ddilysu a'u hadolygu yn unol â phrosesau ansawdd y Brifysgol. Mae'r rhaglenni'n cael eu monitro'n flynyddol drwy'r broses Adolygiad Blynyddol Rhaglenni (ABRh) sy'n gofyn i dimau'r rhaglenni ystyried ac adolygu ystod o wybodaeth, sy'n cynnwys: data am gofrestriad, cadwraeth a chyflawniad y myfyrwyr, ac adborth gan y myfyrwyr a'r arholwyr allanol. Cwblhawyd adroddiadau ABRh hyd at y flwyddyn academaidd 2016-17, pan benderfynodd y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd roi cyflwyniadau i Gynllun Peilot fesul Maes Astudio'r FfRhA yn lle'r broses ABRh arferol ar gyfer 2017-18. Mae'r Brifysgol yn bwriadu cyflwyno proses ABRh ddau gam ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018-19, a dyma fydd y cyfle cyntaf i adolygu darpariaeth y rhaglenni yn y Ganolfan.

54 Mae'r cyfleoedd sydd ar gael i'r myfyrwyr gymryd rhan yn y gwaith o reoli ansawdd y cyfleoedd dysgu'n cynnwys cwblhau arolygon a holiaduron mewnol ac allanol, a chael eu cynrychioli ar bwyllgorau staff-myfyrwyr, pwyllgorau'r rhaglenni a phwyllgorau cyfadrannol neu sefydliadol. Yn y Ganolfan, cesglir adborth gan y myfyrwyr yn anffurfiol, a thrwy gynrychiolwyr y myfyrwyr sy'n eistedd ar y pwyllgorau staff-myfyrwyr. Mae pob grŵp o ddysgwyr yn ethol dau fyfyriwr o'u plith i'w cynrychioli ar y pwyllgorau staff-myfyrwyr; mae'r cynrychiolwyr yn cael eu hymsefydlu yn eu rolau a'u hyfforddi ar eu cyfer. Mae'r nifer o gyfarfodydd bob tymor wedi cynyddu i dri chyfarfod er mwyn hwyluso deialog mwy dynamig i ateb anghenion rhaglen blwyddyn a disgwyliadau dysgwyr anhraddodiadol. Mae unrhyw gamau gweithredu sy'n codi o'r pwyllgorau staff-myfyrwyr yn cael eu holrhain drwy ddefnyddio system oleuadau traffig. Mae ymatebion y staff i geisiadau gan fyfyrwyr yn cael eu hystyried yn ofalus a'u gweithredu lle bo'n bosibl; rhoddir esboniadau i'r myfyrwyr os na ellir gwneud newidiadau. Mae cysylltiad cryf rhwng Undeb y Myfyrwyr a'r myfyrwyr yn y Ganolfan: mae Undeb y Myfyrwyr wedi bod ar dri ymweliad â Birmingham ac wedi cefnogi hyfforddiant i gynrychiolwyr myfyrwyr, ac mae cynlluniau ar y gweill i fyfyrwyr y Ganolfan fynd i gynhadledd nesaf Undeb y Myfyrwyr yng Nghymru. Byddai dull trefnus o gynnal arolygon myfyrwyr yn galluogi i'r Ganolfan ganfod materion sy'n achosi pryder i'r corff myfyrwyr ehangach ac olrhain effeithiolrwydd unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn cyflwyno system gynhwysfawr i gasglu a dadansoddi data'n systematig am foddhad y myfyrwyr ar lefel y modiwlau a'r rhaglenni yng Nghanolfan Ddysgu Birmingham (gwelwch hefyd baragraff 27).

55 Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai anghysonderau ddatblygu ynglŷn â rhaglenni, megis y rhaglen Tystysgrif AU mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle sy'n cael ei darparu mewn nifer o ganolfannau i grwpiau o fyfyrwyr gyda nodweddion arbennig o dan wahanol batrymau o ddarparu. Mae'r Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Mentrau Rhyngwladol) a Deon y Gyfadran Busnes a Rheolaeth wedi sefydlu symposia i ymdrin â'r pryderon hyn ac i benderfynu ymhle y gallai amrywiadau lleol fod yn dderbyniol er mwyn cyfateb ag amgylchiadau lleol. Canfu adolygiad o ddarpariaeth y rhaglen Tystysgrif AU mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle bod angen adolygu dogfennaeth ddiffiniol y rhaglen i adlewyrchu gwahanol batrymau darparu ac asesu'r fersiynau o'r rhaglen ar y campws ac ar safleoedd allanol. Yn weithredol o fis Mai 2019, mae fersiwn adolygedig o'r rhaglen yn cael ei darparu sy'n fwy addas i fyfyrwyr y Ganolfan. Yn y cyfamser, mae gweithgorau ar faterion asesu, byrddau arholi, cymorth i fyfyrwyr, presenoldeb a marchnata'n cyfarfod i ymdrin â'r camau gweithredu a bennwyd yn ystod y symposia. Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau**'r camau a gymerir i gyflwyno symposia a gweithgorau ar lefel y rhaglenni i sicrhau bod y rhaglenni'n cael eu darparu'n gyson ar wahanol safleoedd.

56 Cymeradwyir y strategaethau asesu ar gyfer pob un o'r rhaglenni wrth eu dilysu, a nodir manylion y strategaethau yn nogfennau diffiniol y rhaglenni. Mae'r strategaeth asesu ar gyfer y rhaglen Tystysgrif AU mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle wedi'i llunio'n benodol i gefnogi grwpiau arbennig o fyfyrwyr, y mae'r mwyafrif ohonynt heb y cymwysterau mynediad traddodiadol ar gyfer mynediad i addysg uwch neu brofiad diweddar o addysg. Gwneir yr holl asesiadau ar ffurf gwaith cwrs; ni ddefnyddir arholiadau ffurfiol. Mae'r Ganolfan yn gwneud ymdrechion i gefnogi'r myfyrwyr i fabwysiadu arfer academaidd da, ac i osgoi canlyniadau defnyddio dulliau annheg, megis llên-ladrad neu gyd-dwyllo. Mae hyn wedi bod yn bryder penodol, o ystyried y ffocws ar ddysgu ymarferol, a'r ffaith bod y Brifysgol yn annog dysgu ar y cyd. Er hynny, mae'r Ganolfan wedi derbyn nifer fawr o honiadau o arferion annheg yn ei blwyddyn gyntaf o weithredu. Dyma rai o'r camau gweithredu i ymdrin â'r pryderon hyn: cynnal sesiynau cynefino cynhwysfawr ar gyfer pob rhaglen, parhau i ddarparu cymorth sgiliau astudio, defnyddio asesiadau ffurfiannol ac adborth ffurfiannol gan diwtoriaid, ac hefyd defnyddio meddalwedd canfod llên-ladrad, rhoi rhybuddion am gydweithio'n amhriodol, a gofyn am gwblhau rhai o'r tasgau asesu yn ystod amser dan oruchwyliaeth yn y dosbarth.

57 Gweithredir y trefnau asesu yn unol â'r egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Yn y rhaglen Tystysgrif AU mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle, tynnir tasgau asesu myfyrwyr y Ganolfan o gronfa o asesiadau a gedwir yn ganolog gan dimau'r rhaglenni. Caiff gwaith y myfyrwyr ei farcio gan staff y Ganolfan a'i safoni yn y Ganolfan a gan gydweithwyr ar gampws Llundain. Penodir arholwyr allanol yn unol â gofynion Pennod 7 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Mae 'arholwr allanol modiwlau' yn "gwirio bod safonau'n briodol ar gyfer pob modiwl y mae'r arholwr allanol modiwlau'n gyfrifol amdano" ac mae'n "cynorthwyo'r Brifysgol wrth gymharu safonau academaidd ar draws dyfarniadau Addysg Uwch". Mae'r arholwr allanol modiwlau ar gyfer y rhaglen Tystysgrif AU mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle'n ymwneud â'r ddarpariaeth yn y Ganolfan ac ar gampws Llundain; ar adeg yr adolygiad, roedd yr arholwr wedi cyflwyno dau adroddiad. Mae pryderon ynglŷn â chysondeb y prosesau o farcio a safoni, ac â mynediad electronig at sylwadau ac anodiadau, wedi derbyn sylw'n brydlon gan y Ganolfan. Penodir 'arholwr allanol gweithdrefnol' i fynd i gyfarfodydd y byrddau arholi yn y Ganolfan ac i roi adroddiad ar ymlyniad y byrddau â rheoliadau academaidd y Brifysgol ar gyfer dilyniant a dyfarniadau. Ar adeg yr adolygiad, roedd yr arholwr allanol gweithdrefnol wedi mynychu ac adrodd ar un cyfarfod bwrdd. Mae'n cadarnhau bod y cyfarfod bwrdd wedi'i weithredu'n briodol a bod y ffordd o wneud penderfyniadau'n gyson ond mae'n nodi, am mai dim ond y byrddau yn Llundain a Birmingham y mae'n eu mynychu, ni all gadarnhau bod y penderfyniadau a wnaed yn gyson â'r rheiny a wnaed gan fyrddau eraill wrth ystyried yr un dyfarniad ar safleoedd eraill.

58 Dyma rai o'r mecanweithiau niferus y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio i sicrhau bod safonau academaidd y dyfarniadau a ddarperir yn gyson ar draws ei gwahanol safleoedd: disgrifwyr modiwlau safonol, cronfa o dasgau asesu cymeradwy, aelodau o'r staff academaidd sy'n darparu rhaglenni ar draws gwahanol safleoedd, a phrosesau safoni ac arholi allanol sy'n berthnasol i fwy nag un safle. Fodd bynnag, nododd y tîm adolygu bod diffyg mecanweithiau, megis safoni ac arholi allanol, i sicrhau bod safonau dyfarniadau a ddarperir ar draws lleoliadau'n gymaradwy. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sefydlu mecanweithiau i gryfhau'r sicrwydd bod safonau academaidd y dyfarniadau ar wahanol safleoedd yn gymaradwy.

59 Mae'r Ganolfan yn gwneud defnydd priodol o ddata meintiol ac ansoddol i ganfod cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth. Mae data'n ymwneud â chofrestriad, presenoldeb, cynnydd, cyflawniad ac ymadawiad y myfyrwyr yn cael ei fonitro i sicrhau bod y prosesau derbyn yn gadarn, bod cymorth sgiliau astudio ar gael, a bod systemau a pholisïau'r Brifysgol - e.e. yn ymwneud ag amgylchiadau esgusodol ac atal astudiaethau - yn cael eu deall a'u defnyddio i gefnogi myfyrwyr sy'n ymdopi â'r heriau sy'n wynebu dysgwyr hŷn fel arfer. Mae'r gyfradd gadael cyn gorffen ar gyfer y garfan gyntaf o fyfyrwyr ar y rhaglen Tystysgrif AU mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle wedi bod yn uchel, gyda bron i hanner y myfyrwyr cofrestredig yn ymadael cyn diwedd eu cwrs. Yn ôl y Ganolfan, dyma rai o'r rhesymau am y cyfraddau uchel hyn o

ymadael yn gynnar: cofrestru myfyrwyr oedd heb wir ddiddordeb mewn astudio, problemau teuluol a phersonol, diffyg cefnogaeth gan gyflogwyr, a theimlo'n rhwystredig am y prosesau o gyflwyno a marcio aseiniadau. Datblygwyd cynllun gweithredu i wella cadwraeth. Dyma rai o'r camau gweithredu i wella cadwraeth: cryfhau'r broses dderbyn; newid patrymau o ddarparu i helpu rhieni sydd â phlant o oedran ysgol; gwella'r fframwaith cymorth myfyrwyr; a threfnau cymorth ariannol.

60 Mae'r tîm adolygu'n cadarnhau bod gan y Brifysgol fframwaith priodol ar gyfer sicrhau safonau academaidd ei dyfarniadau ac ansawdd ei darpariaeth. Mae heriau darparu rhaglen ar wahanol safleoedd i fyfyrwyr sydd â nodweddion arbennig wedi'u cydnabod ac yn derbyn sylw gan symposia a gweithgorau. Mae angen gwneud rhagor o waith i gryfhau'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod safonau academaidd yr un dyfarniadau a ddarperir ar nifer o safleoedd yn gymaradwy. Mae'r staff yn y Ganolfan wedi gweithio'n agos â'r myfyrwyr i ddatblygu safle'r Ganolfan a darpariaeth y cwricwlwm; mae'r myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a ddarperir gan y Ganolfan ac ymatebolrwydd y Brifysgol i'w ceisiadau. Ond, byddai dull cynhwysfawr o gasglu adborth gan y corff myfyrwyr yn galluogi i'r Brifysgol ganfod problemau a monitro effeithiolrwydd y camau gweithredu a gymerir.

**QAA2444 - R10882 - Medi 19**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2019
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk